



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Adroddiad ar weithgareddau 2012-13

Noddwyd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2012-13

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Bryn Menai, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2JA
Ffôn: 01248 371839
Ebost: swyddfa@cyfieithwycymru.org.uk
Gwefan: www.cyfieithwycymru.org.uk

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2012 - 13

Cyflwyniad

Prif nod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn fu parhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu a datblygu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- cynnal rhaglen amrywiol a llwyddiannus o hyfforddiant i hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr;
- meithrin perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- buddsoddi mewn ymchwil academiaidd er lles a datblygiad y proffesiwn/diwydiant cyfieithu;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill;
- hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.

Cynnwys

1. Gweithgareddau 2012-13
2. Y sefyllfa ariannol
3. Dyfodol y Gymdeithas
4. Atodiadau
 - Byrddau a phwyllgorau'r Gymdeithas
 - Rhestr o weithdai 2012-13

Gair o ddiolch gan y Prif Weithredwr

Hoffwn ddiolch i Nia Wyn Edwards a Judith Kaufmann am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r Gymdeithas, ac i Berwyn Prys Jones, ein Cadeirydd, am ei gefnogaeth gyson a'i ffraethineb. Diolch hefyd i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr, y Bwrdd Arholi Testunau, y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol am eu ffyddlondeb i'r pwyllgorau hyn ac am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgorau yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas a hir y parhaed hynny.

Geraint Wyn Parry
31 Gorffennaf 2013



1. Gweithgareddau 2012-13

1.1 Cynyddu a datblygu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr

Ar 31 Mawrth 2013, roedd gan y Gymdeithas 354 o aelodau unigol (o'i gymharu â 352 ar 31 Mawrth 2012), fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn - 188

Aelodau Sylfaenol - 154

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd - 66 (12)*

* Y ffigwr rhwng cromfachau yw nifer yr aelodau sy'n aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n aelodau Cyflawn (41) neu'n aelodau Sylfaenol (13) hefyd.

Ni fu gan y Gymdeithas gymaint o aelodau Cyflawn yn ei hanes ac ni fu bwllch mor fawr rhwng niferoedd yr aelodau Cyflawn a Sylfaenol erioed o'r blaen. Gwelwyd cynnydd o 25 o aelodau yn y categori hwn yn ystod y flwyddyn.

Mae gennym 8 Aelod Corfforaethol. Croesawyd Trosol yn Aelod Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Mae gennym 8 Aelod Sefydliadol.

Cadarnhawyd canllawiau categori newydd o aelodaeth i Fyfirwyr yn ystod y flwyddyn. Bydd yn fodd i dynnu darpar gyfieithwyr o blith myfirwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfieithu ôl-raddedig i mewn i rwydweithiau'r Gymdeithas. Bwriedir recriwtio'r rhai cyntaf yn ystod 2013-14.

1.2 Cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Cynhaliwyd **Arholiadau Aelodaeth Testun** ym mis Ebrill 2012 a mis Hydref 2012. Dyma ganlyniadau'r arholiadau

Cyfanswm yr holl ymgeiswyr *	Ebrill 2012		Hydref 2012	
	Ymgeiswyr	Llwyddo	Ymgeiswyr	Llwyddo
	51		61	
Cyflawn *	32	10	38	21
Papur 1 - i'r Gymraeg	28	9	35	16
Papur 2 - i'r Saesneg	10	1	13	10
Sylfaenol *	19	9	23	6
Papur 1 - i'r Gymraeg	16	7	19	2
Papur 2 - i'r Saesneg	7	3	12	3

* Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur



Parhaodd y duedd a welwyd gyntaf ym mis Hydref 2011 o gael mwy o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiadau Cyflawn na'r rhai Sylfaenol. Dangosodd hynny awydd cynyddol ymhlith cyfieithwyr i gyrraedd safon wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith. Mae ef hefyd yn arwydd fod ymdrechion y Gymdeithas i fynnu mai Aelodau Cyflawn ddylai gael eu defnyddio gan gyrff a sefydliadau yn dwyn ffrwyth, yn ogystal â bod yn ymateb i'r ffaith y bydd yn rhaid bod yn Aelod Cyflawn i wneud cais i fod ar gytundeb fframwaith cyfieithu'r Llywodraeth.

Parhawyd i fireinio'r drefn arholi newydd a fabwysiadwyd yn 2011, sef un lle bydd tîm o 3 arholwr, Prif Arholwr a dau Ddirprwy, y naill yn gyfrifol am yr arholiadau i'r Gymraeg a'r llall i'r Saesneg, yn gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â chynnal arholiadau aelodaeth y Gymdeithas ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol. Y Prif Arholwr oedd Fiona Gannon a'r 2 Ddirprwy oedd Mary Jones i'r Gymraeg a Meinir McDonald i'r Saesneg.

Un agwedd ar y drefn arholi ar ei newydd wedd yw cynnal cyfarfod marcio ryw fis ar ôl cynnal yr arholiadau er mwyn i'r holl arholwyr a marcwyr ddod at ei gilydd ar ôl cwblhau'r gwaith marcio unigol ymlaen llaw, i drafod wyneb yn wyneb a phenderfynu ar y marciau terfynol. Y farn gyffredinol yw bod hynny'n ymarfer buddiol iawn. Mae ef hefyd yn golygu bod modd dosbarthu'r canlyniadau'n gynt nag o dan yr hen drefn.

Penderfynwyd hefyd ychwanegu hanner awr at hyd yr arholiadau Aelodaeth Sylfaenol. Maent bellach yn para 2 awr a 5 munud, fel y gwna'r rhai Cyflawn.

Yn yr **arholiadau Cyflawn** llwyddodd nifer uwch o ymgeiswyr nag yn y gorffennol. Roedd y safon drwyddi draw yn addawol iawn a doedd dim ymgeiswyr gwirioneddol wan. Llwyddodd sawl un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn un o'r ddau ddarn a dengys y gallu hwn i gyrraedd y safon angenrheidiol, hyd yn oed os na lwyddwyd i gynnal y safon ar hyd y papur, fod ymgeiswyr bellach yn fwyfwy ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir yn yr arholiad Cyflawn. Y prif reswm am fethiant nifer o'r ymgeiswyr oedd diffyg darllen a mireinio digon manwl, felly ni ellir ond pwysleisio eto yr un cyngor ag a roddwyd ers sawl blwyddyn bellach, sef bod rhaid rhoi'r un sylw manwl a gofalus i'r gwaith golygu ag i'r cyfieithu ei hun er mwyn llwyddo ar y lefel hon.

Yn yr **arholiadau Sylfaenol** braidd yn siomedig oedd y safon ar y cyfan, a chanran fechan yn unig a luniodd ddau gyfieithiad digon graenus i lwyddo. Cafwyd yr argraff nad oedd nifer sylweddol o'r ymgeiswyr yn ddigon cyfarwydd â chrefft cyfieithu a bod gormod ohonynt yn cyfieithu gair am air heb ofalu bod y cystrawennau a'r idiomaau a ddefnyddid yn rhai cynhenid i'r iaith darged. Rhaid cofio mai creu darn sy'n darllen fel darn gwreiddiol o Gymraeg/Saesneg yw'r nod. Y ddau wendid pennaf a welwyd oedd methu â chyfleu'r union ystyr a methu â chyfuno cywair a chystrawen yn briodol ac yn llyfn. Gwelwyd hefyd ormod o wallau elfennol, megis gwallau sillafu, gwallau treiglo a diffyg cytundeb rhwng goddrych ac enw. Dengys y rhain pa mor hanfodol yw darllen y gwaith yn eithriadol o ofalus cyn ei gyflwyno, er mwyn sicrhau cywirdeb a diwyg mor broffesiynol â phosibl.

Enillydd **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** oedd Elgan Davies, cyfieithydd yn y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y wobwr iddo mewn seremoni yn Adeilad y Cynulliad gan Rhodri Glyn Thomas AC, yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge – er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru – i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, yn ystod y ddwy rownd arholi a gynhelir yn yr hydref a'r gwanwyn blaenorol, os bernir bod teilyngdod.



Yn unig **Brawf CAP** y flwyddyn ym mis Tachwedd 2012, mewn stiwdios sain proffesiynol yng Nghaerdydd a'r Groeslon, cafwyd 9 ymgeisydd a llwyddodd 4 ohonynt.

Er nad oedd y safon cystal, at ei gilydd, â'r hyn a welwyd ym mhroffion y gorffennol roedd y goreuon yn cyfieithu'n eglur, yn gywir ac yn gyflawn gan bwysleisio'n ddeallus a defnyddio cystrawennau ac idiomau priodol yn yr iaith darged. Gwelwyd dawn gan ambell un i aralleirio'n gelfydd. Y prif wendidau oedd ansicrwydd ynghylch cystrawen a chywair ac idiom wrth i lawer o'r rhai aflwyddiannus ddefnyddio cystrawennau'r frawddeg Gymraeg yn eu Saesneg a chyfieithu idiomau'n llythrennol. Mae hynny'n amlygu'r angen iddynt wrando ar Saesneg o safon.

Cyflwynwyd rhai newidiadau i'r drefn asesu CAP, newidiadau a oedd yn adlewyrchu'r drefn newydd a fabwysiadwyd ar gyfer yr Arholiadau Aelodaeth (Testun). Bellach, mae dau gyd-Brif Arholwr – Mair Parry-Jones a Rhian Huws.

1.3 Cynnal rhaglen amrywiol a llwyddiannus o hyfforddiant

Trefnwyd rhaglen amrywiol a llwyddiannus o hyfforddiant i hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr, gan gynnwys gweithdai, cynllun mentora a'r e-weithdy cyfieithu. Y Gymdeithas yw'r unig gorff sy'n cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol a hyfforddiant rheolaidd i gyfieithwyr a darpar gyfieithwyr.

Cafwyd 236 o gofrestrïadau ac elwodd 163 o unigolion gwahanol o'r gweithgareddau hyn. Roedd 79 ohonynt yn aelodau'r Gymdeithas. O'r gweddill, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio fel cyfieithwyr i'r llywodraeth ganolog, i awdurdodau lleol, y sector addysg, neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae hynny'n arwydd fod y sefydliadau hynny'n gweld gwerth yn y ddarpariaeth arbennig a phwysig hon gan y Gymdeithas i hwyluso datblygiad proffesiynol eu staff. Y cam nesaf fydd i'r cyfieithwyr hynny ymaelodi â'r Gymdeithas.

Trefnwyd 7 **gweithdy wyneb-yn-wyneb** yn ystod y flwyddyn, a chynhaliwyd y rhan fwyaf ohonynt mewn mwy nag un lleoliad ar hyd a lled Cymru. Cafwyd ymateb rhagorol iddynt ar y cyfan. Buom yn ffodus iawn i ddenu tiwtoriaid o safon i gynnal y gweithdai. Hefyd cynhaliwyd sesiwn drafod i ymdrin â chyfieithu teitlau dogfennau, sesiwn a fu'n fyrrach a llai ffurfiol na gweithdy. Ceir rhestr o'r holl weithdai yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Ymysg y gweithdai a drefnwyd yr oedd un ar gyfieithu a golygu dan arweiniad Eyvor Fogarty a Kari Koonin a roddodd gyfle i ni estyn croeso i gyfieithwyr sy'n aelodau o'r ITI ac yn gweithio mewn cyfuniadau eraill o ieithoedd. Bwriadwn ddatblygu'r berthynas hon a chafodd y Prif Weithredwr gyfarfod ag Elvana Moore, cydlynnydd grŵp yr ITI yng Nghymru, i drafod y posibilïadau.

Parhaodd poblogrwydd **yr e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur, ac iddynt gael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtoriaid sy'n gyfieithwyr proffesiynol ac yn arholwyr. Anelwyd yr e-weithdy cyfieithu at ddarpar ymgeiswyr yr arholiad Sylfaenol. Cynhaliwyd 9 e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn a chymerodd 39 ran ynddynt.

Elwodd 2 unigolyn o'r **Cynllun Mentora (Testun)** yn ystod y flwyddyn.



Cyflwynwyd dau gynllun hyfforddiant CAP newydd yn ystod y flwyddyn. Rhydd yr **Ymarferion CAP** ddau gyfle ar wahanol adegau i bobl gyfieithu mewn stiwdio er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â threfniadau a gofynion y prawf CAP a chael sylwadau beirniadol ac adeiladol gan diwtor a thrafodaeth ar y cyfieithu. Cymerodd 8 o bobl ran yn y cynllun hwn. Dechreuodd 2 ar y **Cynllun Mentora (CAP)**.

1.4 Meithrin perthynas â sefydliadau Addysg Uwch

Parhaodd y Gymdeithas i feithrin ei pherthynas agos â swyddogion y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** wrth i'r Coleg gydnabod fod cyfieithu'n faes pwysig ac yn un y mae'n awyddus i'w gefnogi. I ganfod ffyrdd o fuddsoddi ym maes Astudiaethau Cyfieithu, aeth y Coleg ati i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gynnig fframwaith cenedlaethol addas dan gadeiryddiaeth Heini Gruffudd. Bu Fiona Gannon hefyd yn aelod o'r Grŵp ar ran y Gymdeithas. Cymeradwyodd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg argymhellion y Grŵp ar 28 Tachwedd 2012 a bydd y Coleg yn sefydlu rhwydwaith neu ysgol Astudiaethau Cyfieithu. Oddi ar hynny, mae Lowri Williams wedi'i secondio am flwyddyn o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i fod yn Gydlynnydd Academaidd. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli ar y pwyllgor rheoli.

Bu'r Gymdeithas yn bartner allweddol yn natblygiad Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**, y cymhwyster cyntaf i'w gynnig mewn cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg ac un sy'n cynnig cyfle i ennill cymhwyster academaidd sy'n bodloni anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu. Roedd y Prif Weithredwr yn bresennol yn y Panel Dilysu Terfynol ac yn lansiad swyddogol y Dystysgrif yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu staff ac aelodau o'r Gymdeithas yn addysgu ar y cwrs. Cynhaliwyd sesiynau dysgu dwys yn y labordy iaith pwrpasol ar gampws y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan ac roedd cyfnod o brofiad gwaith yn rhan o'r modiwl olaf. Rydym yn llongyfarch pob un o'r 5 myfyriwr cyntaf a gofrestrodd ar ennill eu Tystysgrifau.

Bu aelodau'r Gymdeithas yn dysgu ar fodiwl cyfieithu galwedigaethol i israddedigion blwyddyn 3 **Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd**. Cyflwynwyd hwn am y tro cyntaf ar ei newydd wedd ym mlwyddyn academaidd 2012-13 wedi i'r Gymdeithas gydweithio â'r Ysgol ar ei gynnwys.

Roedd y Gymdeithas yn bartner o'r tu allan i'r byd academaidd ym mhrosiect 6-mis **Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Bangor**, 'Diwylliannau cyfieithu: Rhwydwaith ymchwil cyfieithu', prosiect y cawsai'r Brifysgol grant gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (yr AHRC) i'w redeg. Bwriad y prosiect oedd sefydlu a datblygu rhwydwaith i'r sawl sy'n ymchwilio i gyfieithu yng Nghymru, a'r nod oedd hybu disgyblaeth Gwyddor Cyfieithu yng Nghymru a chodi proffil Cymru o fewn y ddisgyblaeth. Cyfrannodd y Gymdeithas at gynhadledd y prosiect ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi 2012. Y Gymdeithas sy'n cynnal gwefan y prosiect.

1.5 Buddsoddi mewn ymchwil academaidd

Parhaodd y Gymdeithas i noddi ymchwil PhD Dawn Wooldridge ym Mhrifysgol Bangor i 'Proffilio gwallau: astudiaeth o sut mae darpar gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn cyfieithu'. Bydd hi'n proffilio ac yn dadansoddi'r gwallau a welir mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, a'i nod fydd cynnig argymhellion ynghylch gwella'r hyfforddiant sydd ar gael. Bydd y Gymdeithas yn noddi PhD Dawn am gyfnod o 2 flynedd hyd at fis Tachwedd 2013. Bu Judith Kaufmann yn bresennol yng nghyfarfodydd y tîm sy'n goruchwylio astudiaethau Dawn yn ystod y flwyddyn.



Fel rhan o'i gwaith, lluniodd Dawn broffil o gyfieithwyr ar sail holiadur a anfonwyd at holl aelodau'r Gymdeithas ac y cafodd hi 142 o ymatebion iddo. Cyhoeddodd erthygl yn rhifyn Ionawr-Chwefror 2013 o Fwletin yr ITI yn crynhoi canlyniadau'r arolwg.

Ymhlith y rhesymau a gafodd hi dros ddilyn gyrfa fel cyfieithydd roedd yr ymateb gonest iawn: "Wel, unrhyw beth i dalu'r biliau" a'r ymateb hyfryd: "Rwyf bob amser wedi mwynhau cyfieithu, ac fe awn mor bell â dweud fy mod yn mwynhau fy ngwaith, gymaint fel nad yw yn teimlo fel gwaith."

Mae'r PhD yn rhan o'r cynllun KESS a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

1.6 Cynnal a meithrin cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau

Mae'r Gymdeithas yn aelod o **Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg** (yr arferid ei alw'n brif bartneriaid **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**), grŵp y mae Uned y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei gydlynw a'i weinyddu. Bu'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp yn ystod y flwyddyn.

Parhawyd i gryfhau'r berthynas rhwng y Gymdeithas a **Thŷ Cyfieithu Cymru a Thŷ Newydd Llanystumdwy**. Unwaith eto, y Gymdeithas a noddodd y Ffon Farddol. Fe'i cyflwynwyd i enillydd Her Gyfieithu 2012, Angharad Tomos, mewn seremoni ar stondin Prifysgol Aberystwyth yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan y Gweinidog Cyllid a'r Aelod Cynulliad Lleol, Jane Hutt. Talwyd teyrnged i'w champ gan ein Cadeirydd yn y seremoni.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o **Fwrdd Prosiect Rhannu Adnoddau Cyfieithu Llywodraeth Cymru**. Bu'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect yn ystod y flwyddyn.

Ffurfiolwyd perthynas y Gymdeithas â **Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd Ei Mawrhydi** a chaiff y Prif Weithredwr gyfarfodydd rheolaidd â staff Uned y Gymraeg. Cyfrannodd y Prif Weithredwr at lunio Gweithdrefn Gweithredu Safonol ynghylch llogi gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd Cymraeg mewn gwrandawiaidau llys a thriwilysoedd; ac fe recordiodd ddarn am gyfieithu ar y pryd ar gyfer DVD y Gwasanaeth ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd.

Bu'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghyfarfodydd **Rhwydiaith** yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn aelod o grŵp llywio Prosiect Trawsffiniol Mentrau Iaith y gogledd a gydlynir gan Fenter Iaith Conwy, prosiect a gaiff ei ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae Cynllun Cyfieithu Cymunedol yn rhan o'r prosiect.

Cydweithiodd y Gymdeithas â sawl sefydliad cyhoeddus er lles a datblygiad y proffesiwn, gan gynnwys Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad, ac awdurdodau lleol.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Mantell Gwynedd, y Sefydliad Materion Cymreig, Mudiadau Dathlu'r Gymraeg a Dyfodol i'r Iaith.



1.7 Hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau

Daeth cynulleidfa deilwng i wrando ar Gwyneth Lewis yn traddodi **Darlith Goffa Hedley Gibbard** yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. 'I mewn i'r Tempest, allan o'r Storm' oedd teitl ei darlith. Ynddi bu'n trafod ei phrofiadau wrth droi *Y Storm* ar gais Theatr Genedlaethol Cymru a chodi cwr y llen ar yr heriau creadigol ac ieithyddol ac ar ei hymateb i ofynion llwyfannu'r ddrama. Mae'r ddarlith i'w gweld ar wefan y Gymdeithas.

Roedd y Prif Weithredwr yn un o'r siaradwyr yn y seminar '**Professionalising your Association**' a drefnwyd gan yr ITI a FIT Europe yn Heathrow ym mis Ebrill 2012. Bwriad y digwyddiad oedd cyf-drafod arferion da a'r heriau wrth weinyddu corff proffesiynol i gyfieithwyr. Daeth y siaradwyr eraill o gymdeithasau cyfieithu yn Iwerddon, y Swistir, Awstria a'r Almaen. Un arall o'r siaradwyr oedd Annette Schiller o Iwerddon. O ganlyniad i'r cysylltiad hwnnw, fe ymwelodd y Prif Weithredwr â Dulyn ym mis Gorffennaf 2012 a chael cyfarfodydd diddorol a buddiol â rhai o swyddogion yr ITIA (Cymdeithas Cyfieithwyr a Chyfieithwyr ar y Pryd Iwerddon) ac â swyddogion Foras na Gaeilge sy'n gyfrifol am gyfieithu.

Parhaodd y Gymdeithas i feithrin ei pherthynas â'r ITI a hefyd â chyfarwyddiaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd y Comisiwn Ewropeaidd.

Ein **gwefan** yw ein prif arf marchnata a gwybodaeth. Arni, mae rhestr o aelodau cyfredol y Gymdeithas ac mae gan y Gymdeithas drefn gadarn o wneud yn siŵr fod enwau'r aelodau ar y wefan yn gwbl gyfredol. Bellach, os na fydd aelod wedi talu ei dâl aelodaeth erbyn 31 Mai bob blwyddyn, caiff ei enw ei ddileu ar y diwrnod hwnnw (ond bydd yn ailymddangos cyn gynted ag y cawn ni'r tâl ganddo).

Mae **hysbysebion y Gymdeithas** yn cynnwys y neges "Wrthi'n chwilio am gyfieithydd? Ewch i'r unig le i ddod o hyd i gyfieithydd cymwys: www.cyfieithwycymru.org.uk". Mae sawl un wedi dweud ei fod wedi sylwi ar yr hysbysebion sy'n ymddangos yn 'Golwg' a'r 'Cymro' ac mae hynny'n codi proffil y Gymdeithas.

2. Y sefyllfa ariannol

Dyrannwyd grant o £97,269 i'r Gymdeithas gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2012-13, sef yr un swm ag yn 2011-12. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y grant i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roeddem yn ddiolchgar iawn am y nawdd hwnnw i waith y Gymdeithas.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas yw'r taliadau aelodaeth. Bu cynnydd bychan yn y rhain, sef £43,542 o'i gymharu â £42,381 yn 2011-12.

Roedd yr incwm a gafwyd felly'n fodd i'r Gymdeithas gyflogi 2.7 aelod o staff parhaol, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon ddiffyg o £2,977.

Paratowyd yr adroddiad ariannol gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon.



3. Cynnig i ymaddasu i weithredu fel rheoleiddiwr

Cafodd y Gymdeithas llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 19 Rhagfyr 2012, yn cynnig y gallai'r Gymdeithas ddatblygu'i hun i fod yn gorff a fyddai'n canolbwyntio ar faterion rheoleiddio a chynrychioli ei haelodau.

Daeth y cais yn dilyn adolygiad gan ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd gan y Comisiynydd. Bwriad yr adolygiad oedd ystyried strwythurau achredu a rheoleiddio presennol y diwydiant cyfieithu yng Nghymru a chraffu ar weithgareddau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac, yn benodol, ar y cyllid a ddyrennir iddi. Diben yr adolygiad oedd helpu'r Comisiynydd i bennu'r dull gorau o gefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu.

Gwaetha'r modd, nid yw'r Comisiynydd yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad ar yr adolygiad na'i ryddhau i neb, gan gynnwys y Gymdeithas.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 11 Ionawr 2013 i ystyried llythyr y Comisiynydd. Penderfynwyd ein bod ni'n barod i ymaddasu i weithredu fel rheoleiddiwr, ond bod sawl mater oedd yn peri pryder i ni. Cafodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfle i drafod y materion hyn gyda'r Comisiynydd ar 23 Ionawr 2013.

Y cam nesaf oedd llunio cynllun busnes drafft yn unol â chyfarwyddiadau llythyr 19 Rhagfyr 2012. Anfonwyd y cynllun hwnnw at y Comisiynydd ar 12 Chwefror 2013. Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 18 Chwefror 2013 i drafod y cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan y cyfarwyddwyr.

Ar 21 Chwefror 2013 cafodd y Prif Weithredwr gyfarfod â swyddogion y Comisiynydd ac ar ddiwedd y cyfarfod hwnnw rhoddwyd llythyr dyddiedig 20 Chwefror 2013 yn ei law. Newyddion syfrdanol y cyfarfod – a'r llythyr – oedd i'r Comisiynydd honni iddi ddweud wrthym yn ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2013 ei bod "yn ansicr a fyddai cyllid grant ar gael i'r Gymdeithas o Fawrth 2016 ymlaen [ac mai ei] disgwyliad felly oedd y byddai'r Gymdeithas yn llunio cynllun busnes gyda'r rhagdybiaeth na fyddai grant ar gael o Fawrth 2016 ymlaen". Ddywedwyd dim byd o'r fath wrthym yn y cyfarfod.

O ganlyniad, cynhaliwyd cyfarfod brys o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 27 Chwefror 2013 i drafod llythyr 20 Chwefror 2013. Drannoeth, anfonwyd e-bost i swyddfa'r Comisiynydd i ddweud nad oedd y Gymdeithas yn barod i gyflwyno cynllun busnes diwygiedig erbyn 4 Mawrth 2013 fel y gofynnwyd amdano, ac ychwanegwyd bod materion yr hoffai'r Gymdeithas gael atebion iddynt.

Ar 6 Mawrth 2013 anfonwyd papur at y Comisiynydd a oedd yn rhestru'r materion hynny. Ynddo hefyd fe nodwyd ein pryderon ynglŷn â'r sefyllfa a wynebwn, y goblygiadau difrifol o ran dyfodol y Gymdeithas a'r effaith bosib ar y proffesiwn/diwydiant cyfieithu. Anfonwyd copi o'r papur, er gwybodaeth iddo, at y Gweinidog oedd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ar y pryd, Leighton Andrews AC. Ni chafwyd mwy na chydabyddiaeth ffurfiol fod y llythyr wedi cyrraedd ei swyddfa.

Yn sgil yr ansicrwydd ynghylch faint o arian a fydd gan y Gymdeithas o 1 Ebrill 2013 ymlaen, penderfyniad cwbl unfrydol y cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod ar 27 Chwefror 2013, ym mhresenoldeb y staff, oedd gofyn am gyngor arbenigol ynglŷn â'r camau priodol i'w cymryd fel cyflogwyr ac wrth arfer eu dyletswyddau cyffredinol a chyfreithiol fel cyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig. Byddai hynny'n cynnwys ystyried diswyddo rhai neu'r cyfan o'i staff; a pheidio â chynnal arholiadau'r Gymdeithas tan i'w sefyllfa ariannol o 1 Ebrill 2013 ymlaen fod yn gliriach o lawer.



Cafwyd cyfarfod pellach â'r Comisiynydd ar 15 Mawrth 2013 i gadarnhau dealltwriaeth pawb o'r sefyllfa. Dywedwyd wrth y Comisiynydd fod y Gymdeithas yn dal yn awyddus i ymateb i'r cynnig i ymaddasu i fod yn rheoleiddiwr.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, a chyda help yr ymgynghorydd busnes Cynan Jones, aed ati i ailysgrifennu'r cynllun busnes. Lluniwyd y cynllun busnes ar sail y 10 pwynt bwled a restrwyd yn llythyr y Comisiynydd dyddiedig 19 Rhagfyr 2012. Mae ef hefyd yn cymryd i ystyriaeth gynnwys ei llythyrau hi, dyddiedig 20 Chwefror 2013 a 11 Mawrth 2013, a ddywedodd nad oedd cynlluniau ganddi i ariannu'r Gymdeithas o 31 Mawrth 2016 ymlaen ac y dylai'r cynllun busnes ddangos sut y bydd y Gymdeithas yn hunangynhaliol erbyn 31 Mawrth 2016.

Cyflwynwyd drafft o'r cynllun busnes i'r Comisiynydd ganol Mehefin ac yna fersiwn derfynol ohono ar 16 Gorffennaf 2013. Rydym yn disgwyl penderfyniad gan y Comisiynydd ganol Awst 2013.



Atodiad 1 - Pwyllgorau a Byrddau'r Gymdeithas

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Berwyn Prys Jones - Cadeirydd, David Bullock, Ann Corkett, Fiona Gannon, Heini Gruffudd, Wyn Hobson, Dewi Morris Jones a Mary Jones.

Roedd Ifor Gruffydd a Lowri Roberts yn aelodau cyfetholedig.

Ymddiswyddodd Elfrys Jones a Meinir McDonald ar 8 Ionawr 2013. Wrth iddynt roi'r gorau i fod yn gyfarwyddwyr, pwysleisiodd y ddwy ohonynt gymaint yr oeddynt wedi mwynhau cyfeillgarwch y cyfarwyddwyr eraill a'r staff, cael cyfrannu i waith a datblygiad y Gymdeithas, a pha mor werthfawr fu'r profiad. Rydym yn ddiolchgar iawn i Meinir ac Elfrys am eu gwasanaeth a'u hymroddiad clodwiw i'r Gymdeithas fel cyfarwyddwyr dros flynyddoedd maith ac am eu ffyddlondeb i'r pwyllgorau. Fe welwn ni golli eu cyfraniadau gwerthfawr a doeth, eu cwmni braf a'u cyfeillgarwch yn fawr iawn.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 30 Gorffennaf 2012, 5 Rhagfyr 2012, 11 Ionawr 2013, 18 Chwefror 2013 a 27 Chwefror 2013.

Arholwyr a Marcwyr Testun/y Bwrdd Arholi Testunau

Roedd y canlynol yn arholwyr a marcwyr yr Arholiadau Aelodaeth (Testun) yn ystod y flwyddyn, ac yn eu tro yn aelodau o'r Bwrdd Arholi Testunau pan oeddynt yn marcio:

Fiona Gannon (Prif Arholwr), Mary Jones (Dirprwy Arholwr), Meinir McDonald (Dirprwy Arholwr), Ann Corkett, Meg Elis, Heini Gruffudd, Wyn Hobson, Berwyn Prys Jones, Dewi Morris Jones, Sylvia Prys Jones, Glenys Roberts, Megan Hughes Tomos, Heledd Williams a Tegwen Williams. Daeth Catrin Beard, Catrin Small a Gareth Wood yn aelodau newydd o'r tîm.

Y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd

Aelodau'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd yn ystod y flwyddyn oedd:

Wyn Hobson (Cadeirydd), Delyth Davies, Rhian Huws, Aled M. Jones, Siân Eleri Jones, Ann Llwyd, Siôn Aled Owen, Mair Parry-Jones, Helen Phillips, Richard Glyn Roberts, Elin Tudur ac Angharad Watson. Daeth Lynwen Davies, Siôn Edwards, Rhys George, Catrin Howells a Hywel G. Hughes yn aelodau newydd o'r tîm.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd ar 11 Mai 2012 a 1 Chwefror 2013.

Y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol

Aelodau'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol yn ystod y flwyddyn oedd:

David Bullock (Cadeirydd), Delyth Davies, Fiona Gannon, Berwyn Prys Jones, Claire Richards a Lowri Roberts.

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 30 Gorffennaf 2012.



Atodiad 2 - Gweithdai 2012-13

(Sylwer fod y nifer a fu ym mhob gweithdy unigol wedi'i roi rhwng cromfachau)

Idiomau a phriod-ddulliau

Tiwtor – Huw Tegid

25 Mehefin 2012 – Menter Môn, Llangefni (8)

29 Mehefin 2012 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (canslwyd)

2 Gorffennaf 2012 – Gwersyll yr Urdd, Caerdydd (16)

Technoleg a chof cyfieithu (ar y cyd ag Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr)

Tiwtor – Delyth Prys a David Chan

12 Gorffennaf 2012 – Prifysgol Abertawe (8)

13 Gorffennaf 2012 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (10)

Gweithdy offer CAP

Tiwtor – Phil Nicholes o Sound Induction, Y Drenewydd

17 Medi 2012 – Gwersyll yr Urdd, Caerdydd (6)

18 Medi 2012 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (3)

27 Medi 2012 – Galeri, Caernarfon (8)

Ysgrifennu cywir

Tiwtor – Rhiannon Ifans

5 Hydref 2012 – Galeri, Caernarfon (8)

8 Hydref 2012 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (2)

11 Hydref 2012 – Gwersyll yr Urdd, Caerdydd (6)

Osgoi'r maglau

Tiwtor – Mary Jones

8 Tachwedd 2012 – Aberporth (5)

14 Tachwedd 2012 – Galeri, Caernarfon (7)

16 Tachwedd 2012 – Gwersyll yr Urdd, Caerdydd (18)

Sesiwn trafod teitlau dogfennau

4 Rhagfyr 2012 – Llyfrgell Caernarfon (5)

Cyfieithu a golygu yn Saesneg:

o'r drafft cyntaf i'r ddogfen derfynol

Tiwtoriaid – Eyvor Fogarty a Kari Koonin

5 Chwefror 2013 – Caerdydd, Future Inn (23)

Taro'r Cyweiriau

Tiwtor – Robot Trefor

18 Mawrth 2013 – Gwersyll yr Urdd, Caerdydd (19)

19 Mawrth 2013 – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin (8)

21 Mawrth 2013 – Prifysgol Bangor (12)

26 Mawrth 2013 – Tŷ AVOW, Wrecsam (3)

